**Teitl: Lleoedd Arbennig**


| **Teitlau** | **Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli** | **Pererindod Islamaidd i Mecca** | **Pererindod Eingl-Gatholig** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Leoedd Arbennig fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | | | |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Paganiaeth a lleoedd sy’n ysbrydoli</th><th>Pererindod Islamaidd i Mecca</th><th>Pererindod Eingl-Gatholig</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>Dolenni Defnyddiol:<br><br>Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes</td></tr>
<tr><td>Geirfa allweddol</td><td>Paganiaeth - term ymbarél am nifer o draddodiadau gwahanol sydd â chysylltiad agos a’u hamgylchfyd o ran hanes, daearyddiaeth, diwylliant a chwedlau.<br><br>Ysbrydoli – codi ysbryd rhywun, annog.</td><td>Islam- un o’r 6 crefyddau mwyaf y byd<br><br>Mwslim- Unigolyn sydd yn dilyn Islam<br><br>Pererindod- Taith arbennig<br><br>Hajj- Taith arbennig o fewn Islam</td><td>Anglicanaidd – ansoddair am unrhyw beth sy’n perthyn i’r Eglwys Anglicanaidd e.e. Yr Eglwys yng Nghymru / Eglwys Lloegr.<br><br>Catholig – ansoddair am unrhyw beth sy’n perthyn i Eglwys Gatholig Rhufain.<br><br>Anglo-Gatholig – ansoddair am unrhyw beth</td></tr>
</table>

| Teitlau | Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli | Pererindod Islamaidd i Mecca | Pererindod Eingl-Gatholig |
|---|---|---|---|
| | Amgylchfyd – y byd o'n cwmpas<br><br>Amldduwiaeth – y gred mewn mwy nag un duw<br><br>Pantheistiaeth – y gred mai duw yw popeth ac ym mhopeth<br><br>Diwylliant – pethau sy'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn byw ac ymddwyn e.e. hanes, gwerthoedd<br><br>Awen - y grym creadigol sy'n llifo drwy natur<br><br>Duwdod – duw neu dduwies mewn crefydd<br><br>Derwyddon - Roedd derwydd yn aelod o'r dosbarth uchaf mewn diwylliannau Celtaidd hynafol. Roedd derwyddon yn arweinwyr crefyddol yn ogystal â bod yn arbenigwyr cyfreithiol, dyfarnwyr, meddygon a chynghorwyr gwleidyddol. Ni adawodd y Derwyddon unrhyw gofnodion ysgrifenedig.<br><br>Barclodiad y Gawres - siambr gladdu neolithig ar Ynys Môn<br><br>Hynafiaid – pobl y gorffennol | Mosg- Man addoli Islam<br><br>5 piler Islam- 5 rheol bwysicaf o fewn Islam<br><br>Mecca- Dinas yn Sawdi Arabia<br><br>Ihram- Gwisg wen mae rhaid i bob dyn ei wisgo i symboleiddio cydraddoldeb rhwng pawb ar y Hajj.<br><br>Ka'ba- Bocs enfawr yn y Mosg Mawr ble y mae Mwslemiaid yn cerdded o gwmpas<br><br>Qur'an- Llyfr santaidd Islam<br><br>Arwyddocâd- Rhywbeth pwysig<br><br>Dyletswydd- tasg neu weithred y mae angen i rywun ei chyflawni<br><br>Teithlen- Saesneg- Itinery, sef dogfen sydd yn dangos cynllun y daith | sy'n perthyn i'r traddodiad Anglicanaidd a Chatholig.<br><br>Pererindod – mynd ar daith i le o bwys crefyddol.<br><br>Diwygiad Protestanaidd – protest yn erbyn Eglwys Gatholig Rhufain yn yr 16eg Ganrif a arweiniodd at greu amrywiol Eglwysi Protestanaidd. |

| Teitlau | Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli | Pererindod Islamaidd i Mecca | Pererindod Eingl-Gatholig |
|---|---|---|---|
| | Creiriau – pethau o'r gorffennol<br><br>Neolithig – cyfnod mewn hanes, tua 6000 o flynyddoedd yn ôl<br><br>Hirddydd haf – diwrnod hiraf y flwyddyn – 21 Mehefin<br><br>Heuldro'r gaeaf - diwrnod byrraf y flwyddyn - 21 Rhagfyr<br><br>Aliniad – yn cyd-fynd â rhywbeth yn berffaith. | | |
| **Geiriau chwilio** | Paganiaeth<br>Crefydd<br>Amgylchfyd<br>Chwedloniaeth<br>Traddodiadau<br>Sanctaidd<br>Ysbrydoliaeth<br>Derwyddon<br>Ynys Môn<br>Bryn Celli Ddu<br>Siambr gladdu | Mwslim<br>Islam<br>Hajj<br>5 piler Islam<br>Mecca<br>Ihram<br>Ka'ba<br>Qur'an<br>Mosg | Anglicanaidd<br>Catholig<br>Pererindod<br>Anglo-Gatholig<br>Defosiwn<br>Sant / Santes<br>Gwyrth<br>Gwyrthiol |

| **Teitlau** | **Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli** | **Pererindod Islamaidd i Mecca** | **Pererindod Eingl-Gatholig** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Tasgau** ymestynnol | | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Meddyliwch am le sy'n arbennig i chi a cheisiwch egluro pam. Cyflwynwch bortread o'r lle hwnnw i weddill y dosbarth.<br>2. Ymchwiliwch ymhellach i sectau a chredoau Paganaidd.<br>3. Pam yn eich tyb chi mae Paganiaeth yn apelio at gymaint o bobl?<br>4. Ymchwiliwch ymhellach i'r dathliadau Paganaidd sy'n cael eu cynnal ym Mryn Celli Ddu neu Gôr y Cewri ac ysgrifennwch flog yn rhoi eich argraffiadau o'r dathliadau hynny.<br>5. Cynhaliwch drafodaeth ddosbarth, 'A ddylai Paganiaeth gael ei hystyried yn grefydd?'<br>6. Trefnwch ymweliad i un o'r mannau sy'n arbennig mewn Paganiaeth neu trefnwch i aelod o un o'r sectau Paganaidd i ymweld â'r ysgol. | 1. Gwnewch boster sydd yn adlewyrchu beth rydych chi'n gwybod am Islam yn barod.<br>2. Atebwch y cwestiynau yma mewn brawddegau llawn. Defnyddiwch yr erthygl i'ch helpu.<br>• Pam bod Mwslemiaid yn gwisgo Ihram ar y daith Hajj?<br>• Allwch chi enwi pob lleoliad mae Mwslim yn ymweld yn ystod Hajj?<br>• Beth yw'r teitlau mae dynion a merched yn ennill ar ôl gorffen y daith?<br>• Ble mae Hajj yn digwydd? Enwch y wlad a'r ddinas.<br>• Pam bod Hajj yn bwysig i Fwslemiaid? | 1. Gwnewch gasgliad o enwau lleoedd o bwys crefyddol yng Nghymru. Gosodwch y dwsin mwyaf amlwg ar fap o Gymru.<br>2. Casglwch mwy o wybodaeth am Santes Gwenffrewi. Darllenwch am seintiau eraill, e.e. Santes Dwynwen. A oes rhai elfennau tebyg (ac anffodus) yn yr hanesion yma?<br>3. Pam y mae Treffynnon yn cael ei ddisgrifio fel 'Lourdes Cymru'? Gwnewch dabl o brif nodweddion y ddau le mewn ffordd sy'n dangos y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhyngddynt.<br>4. Gan ddefnyddio'r safle http://www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/ ac eraill, rhowch wybodaeth am y daith 21 milltir o Gaerdydd i Benrhys. Gwnewch fap manwl sy'n dangos rhai o'r safleoedd o ddiddordeb sydd ar hyd y daith.<br>5. Pa waith da sydd wedi cael ei wneud gan y gymuned ym Mhenrhys er mwyn gwella ansawdd bywyd y bobl yno? Cofiwch sôn am gyfraniad Eglwys Llanfair, Penrhys. |

| Teitlau | Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli | Pererindod Islamaidd i Mecca | Pererindod Eingl-Gatholig |
|---|---|---|---|
| | | <br>• Creu mat gweddi Islamaidd eich hun.<br>Dyma dempled i'ch helpu chi!<br> | 6. 'Diwrnod allan a chyfle i gymdeithasu yw pererindod erbyn hyn.' Paratowch araith dros ac yn erbyn y gosodiad hwn. Gallwch weithio gyda phartner er mwyn cyflwyno dadleuon ar y ddwy ochr. |
| **Adnoddau pellach** | | | |

| Teitlau | Paganiaeth a lleoedd sy'n ysbrydoli | Pererindod Islamaidd i Mecca | Pererindod Eingl-Gatholig |
|---|---|---|---|
| | | | |